

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Sir Fynwy

Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Sir Fynwy i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Sir Fynwy fodloni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac mae'n methu â bodloni un ohonynt.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Sir Fynwy 5 ohonynt yn llawn, 2 ohonynt yn rhannol, a methodd â chyflawni 3 ohonynt.

Mae gwasanaeth llyfrgell Sir Fynwy yn parhau i weithredu fel rhan o arlwy Hybiau Cymunedol a Llyfrgelloedd unedig ar gyfer y sir, ynghyd â gwasanaethau dysgu oedolion. Mae sylwebaeth lawnach yn y datganiad eleni yn dangos sut y mae'r dull gweithredu hwn yn cael effaith ar y gwasanaeth, er bod lle i gynnig mwy o eglurhad ar rai agweddau o hyd. Gwelwyd gwelliannau calonogol i rai meysydd o ddefnydd llyfrgelloedd, ac o ran gwariant ar ddeunyddiau llyfrgelloedd, ond roedd y perfformiad wedi dirywio mewn meysydd eraill. Mae gostyngiad yn y lefelau staffio cyffredinol wedi effeithio ar gyflawniad o dan Ddangosydd Ansawdd 13 ac mae'r oriau agor (Dangosydd Ansawdd 16) hefyd wedi gostwng o dan y lefel darged. Rhagwelir y bydd rhai gwelliannau wrth i Hwb y Fenni gael ei lansio'n fuan, ac mae strategaeth llyfrgelloedd wrthi'n cael ei datblygu er mwyn llywio cyfeiriad strategol y gwasanaeth yn y dyfodol.

- Mae pob man gwasanaeth yn parhau i ddarparu ystod llawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth da ar gyfer iechyd a lles. Cafodd y gwasanaeth sgôr o 9.4 allan o 10 am ei wasanaethau gan ddefnyddwyr iau.
- Mae diwygiadau i'r broses o gofnodi'r niferoedd sy'n mynychu hyfforddiant o dan DA 5 wedi arwain at ostyngiad mewn perfformiad ymddangosiadol yn 2018/19.
- Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau yn y llyfrgell wedi cynyddu yn 2018/19 gan fod y gwasanaeth yn cofnodi pob gweithgaredd a ddarparwyd gan y gwasanaeth unedig. Mae'r defnydd a wneir o lyfrgelloedd mewn rhai meysydd eraill hefyd wedi cynyddu, gyda Sir Fynwy yn cofnodi un o'r lefelau uchaf o ymweliadau ffisegol y pen o'r boblogaeth yng Nghymru.
- Mae'r buddsoddiad mewn caffael eitemau a deunyddiau Cymraeg wedi cael ei adfer, sydd i'w groesawu, ond mae cyfyngiadau cyllidebol yn parhau i fod yn ffactor, ac mae perfformiad islaw'r lefelau a bennwyd. Rhagwelir y bydd gwelliannau pellach.
- Mae lefelau staffio cyffredinol wedi gostwng tra'n aros i Hwb y Fenni gael ei lansio, ond mae nifer y staff proffesiynol wedi parhau i gynyddu. nid yw'r targedau ar gyfer DA 13 yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd yn y naill achos na'r llall.
- Mae diwygiadau i oriau'r gwasanaeth dosbarthu i'r cartref yn golygu bod cyfanswm yr oriau agor blynyddol (DA 16) hefyd wedi gostwng islaw lefel y targed yn 2018/19.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1 Hawliau craidd

Mae Sir Fynwy yn bodloni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac mae strategaeth yn cael ei datblygu i'w alluogi i gyflawni HG12 yn 2019/20, ond nes y bydd hon wedi'i chwblhau ni fydd HG12 wedi'i gyflawni. Cyflwynwyd sylwadau sy'n dangos y ffordd y mae'r gwasanaeth yn mynd i'r afael â gofynion hawliau craidd eraill. Darperir ystod eang o wasanaethau drwy weithio gyda phartneriaid a thrwy'r gwasanaeth unedig â Dysgu Cymunedol, gyda'r rhan fwyaf o fannau gwasanaeth llyfrgelloedd yn gweithredu fel Hybiau Cymunedol hefyd.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Sir Fynwy yn cyflawni 5 yn llawn, 2 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 3 o'r dangosyddion.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 – Lleoliad manau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau y pen o'r boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Heb ei gyflawni
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	x	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth	x	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	

DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n rhannol
a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 15 diwrnod	x	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff y pen o'r boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	x	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth	x	Heb ei gyflawni

Mae rhai agweddau ar berfformiad cyffredinol Sir Fynwy wedi gostwng o gymharu â 2017/18. O drwch blewyn y collodd y gwasanaeth y targed ar gyfer canran y ceisiadau a gyflenwyd o fewn 15 diwrnod, ac o ganlyniad dim ond yn rhannol y cyflawnwyd DA 12 yn 2018/19. Mae gostyngiadau mewn lefelau staffio cyffredinol wedi effeithio ar gyflawniad o ran staff y pen (DA 13) ac mae oriau agor (DA 16) hefyd wedi gostwng yn is na'r lefel darged erbyn hyn.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cwblhaodd Sir Fynwy ei arolwg i blant yn ystod hydref 2018 yn ôl y bwriad, ac mae'n bwriadu cwblhau ei arolwg o oedolion yn ystod hydref 2019. Er bod ffigur wedi'i nodi ar gyfer DA 5 b) isod, nid yw'r sampl a arolygwyd yn bodloni'r gofyniad sylfaenol i fod yn ystadegol gywir.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	90%	=9/13	60%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	dd/b		38%	88%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	93%	=16/20	80%	97%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Sir Fynwy bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Clonclyfrau – buddiannau aelodaeth o grŵp Clonclyfrau (menter gan yr Asiantaeth Ddarllen i ddarparu grwpiau darllen plant). Mae grŵp Clonclyfrau wythnosol, sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr, wedi dechrau yn Llyfrgell y Fenni. Mae adborth y

gwirfoddolwyr yn cyfeirio at fuddiannau'r grŵp o ran ennyn diddordeb plant mewn darllen a'u cynnwys mewn amrywiaeth eang o weithgareddau dysgu a rhai hwyliog.

- Calon y Gymuned - pwysigrwydd y llyfrgell i un fam ifanc, a ffilmwyd ar gyfer Wythnos Llyfrgelloedd yn sôn am yr holl adnoddau a gwasanaethau a gynigir yn ei Hwb Cymunedol lleol. Sonnir am y gweithgareddau a'r adnoddau i deuluoedd â phlant ifanc, ynghyd â'r cyfle i gymdeithasu i blant a mamau fel ei gilydd.
- Gwasanaeth Dosbarthu i'r Cartref – y 'rhaff achub' hollbwysig a gynigir gan y Gwasanaeth Dosbarthu i'r Cartref ar gyfer cwsmeriaid na allant ymweld â'u llyfrgell leol eu hunain oherwydd salwch, eiddilwch neu broblemau symudedd. Ceir tystiolaeth gan ddau ddefnyddiwr gwasanaeth yn tynnu sylw at yr effaith fuddiol ar ansawdd bywyd, sy'n rhoi mynediad at adnoddau megis llyfrau llafar, a chysylltiad cymdeithasol gwerthfawr â staff y gwasanaeth.
- Cystadleuaeth Ysgrifennu – effaith cystadleuaeth ysgrifennu 500 gair i blant a gynhelir gan y llyfrgell ar un bachgen bach ag M.E. na all fynychu'r ysgol mwyach, ac y mae ei salwch yn cyfyngu ar ei ymweliadau â'r llyfrgell. Gwnaeth y gystadleuaeth ailennyn ei ddiddordeb mewn ysgrifennu, a rhoddwyd hwb i'w hunanbarch drwy ddod yn ail; mae ei ffocws ar ysgrifennu wedi rhoi cyfeiriad newid iddo, gan ei alluogi i ddod yn rhan o gymuned.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir Fynwy ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2017/18	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 5]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	dd/b	24%	82%	96%		
c) iechyd a lles	dd/b	33%	62%	94%	30%	
d) lle diogel a chroesawgar	dd/b	90%	97%	100%		
DA 2 – Boddhad cwsmeriaid					[Fframwaith 5]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	dd/b	81%	91%	98%	79%	
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	dd/b	93%	99%	100%	97%	
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	dd/b	65%	91%	95%		
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	dd/b	93%	97%	99%	93%	
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.4	=4/13	8.5	9.3	9.5	9.1
DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth	24	=16/22	13	30	208	84
c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth	86	19/22	15	199	433	128

DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth	307	10/22	91	295	689	191
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth	4,645*	3/22	2,596	3,969	7,170*	4,614
b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth	395	18/22	345	885	2,205	465
c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth	150	11/22	58	150	251	145
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth ²	326	19/22	95	602	1,424	154
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth ³	10	8/22	5	10	14	10
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	22%	14/22	14%	25%	63%	26%
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	39	9/21	3	30	214	50
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	1,057	15/21	90	1,477	9,806	1,346
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth £15,525	4/22	£7,181	£12,145	£19,449	£15,242	
b) % ar staff	73%	5/22	47%	62%	78%	74%
% ar adnoddau gwybodaeth	11%	18/22	8%	13%	21%	8%
% ar offer ac adeiladau	3%	16/22	0.4%	4%	25%	3%
% ar gostau gweithredol eraill	13%	13/22	0.3%	16%	37%	15%
c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth	£43	16/22	£0	£467	£8,829	£473
DA 15 – Cost net am bob ymweliad	£2.52	1/22	£1.18	£1.82	£2.52	£2.40
DA 16 – Oriau agor ⁴						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.00%	0.25%	dd/b
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	4.38%	18/20	0.00%	0.28%	7.99%	1.24%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân

² fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo

³ fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl ⁴ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

Cydnabyddir bod costau gwasanaeth (DA 14 a 15) bellach yn ymwneud â'r gwasanaeth llyfrgelloedd a dysgu oedolion unedig, ac nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol ag awdurdodau llyfrgell eraill.

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cwblhaodd Sir Fynwy ei arolwg i blant yn ystod hydref 2018 yn ôl y bwriad, a chafwyd sgôr o 9.4 allan o 10 am ei wasanaethau gan ddefnyddwyr iau, a bwriedir cwblhau'r arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion yn ystod hydref 2019. Parhaodd pob un o'r llyfrgelloedd sefydlog i ddarparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth da ar gyfer iechyd a lles, ond mae gwasanaethau mewn rhai llyfrgelloedd cangen wedi lleihau oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau. Mae lefelau hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol wedi

gostwng yn sylweddol yn 2018/19, gan adlewyrchu diwygiadau i'r broses adrodd er mwyn canolbwyntio ar hyfforddiant a ddarperir gan y gwasanaeth llyfrgelloedd; dylai tueddiadau cliriach o ran perfformiad yn y maes hwn ddod i'r golwg maes o law.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Sir Fynwy yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ac yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob un o'r llyfrgelloedd sefydlog. Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau mewn llyfrgelloedd wedi cynyddu yn 2018/19 gan fod y gwasanaeth yn cyflwyno adroddiad ar yr holl weithgareddau a ddarperir gan y gwasanaethau cyngor, llyfrgelloedd a dysgu cymunedol unedig. Mae'r defnydd a wneir o lyfrgelloedd mewn rhai meysydd eraill hefyd wedi cynyddu, gyda Sir Fynwy yn cofnodi un o'r lefelau uchaf o ymweliadau ffisegol y pen o'r boblogaeth yng Nghymru, sy'n adlewyrchu'r ddarpariaeth integredig a gynigir drwy fannau gwasanaeth Hybiau. Ar y llaw arall, mae'r defnydd o'r we wedi parhau i leihau, a bu lleihad bach yn nifer y llyfrau i oedolion a fenthycir. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod gwaith i adnewyddu ei wefan ar y gweill ac y dylai gynyddu nifer yr ymweliadau yn y dyfodol.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱ

Mae'r gwariant ar ddeunyddiau wedi cynyddu yn 2018/19, sydd i'w groesawu, am fod y problemau gyda'r systemau prynu a nodwyd yn 2017/18 wedi'u datrys. Mae nifer y derbyniadau wedi mwy na dyblu o ganlyniad i hynny, ond mae'r perfformiad cyffredinol yn methu â chyrraedd y lefelau targed o hyd, gan fod cyfyngiadau cyllidebol yn parhau'n ffactor cyfyngol. Rhagwelir y bydd gwelliannau pellach ar ôl lansio Hwb y Fenni ac ehangu Llyfrgell Gilwern. Mae'r awdurdod hefyd wedi gwella ei fuddsoddiad mewn deunyddiau Cymraeg ac, er bod y perfformiad o ran hyn yn dal ar y lefel isaf yng Nghymru, nodir bod yr awdurdod wedi ymrwymo i welliannau pellach yn y maes hwn, ac mae eisoes yn targedu darpariaeth ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol wedi cael ei chynnal, gyda gostyngiad bach yn y lefelau defnyddio (tuedd a welwyd yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau llyfrgell). Mae'r gwasanaeth bellach yn methu â chyflawni'r targed ar gyfer cyflenwi ceisiadau o fewn 15 diwrnod, er y cyflawnir y targed 7 diwrnod o hyd; nodir bod achosion o oedi cyn cyhoeddi a'r galw mawr wedi dylanwadu ar berfformiad o ran hyn.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staffio cyffredinol wedi gostwng islaw lefel y targed yn 2018/19 er eu bod yn adlewyrchu lefelau staffio ar gyfer holl swyddogaethau'r Hybiau; nodir bod lleihad gwirfoddol mewn oriau wedi bod yn ffactor o ran hyn, a rhagwelir y bydd rhagor o benodiadau yn ddiweddarach yn y flwyddyn adeg lansio Hwb y Fenni. Mae staffio proffesiynol wedi parhau i gynyddu, ond erys islaw'r lefel ganolrifol, gyda Phennaeth y Gwasanaeth (sydd heb gymhwyster mewn llyfrgellyddiaeth) yn gallu troi at gydweithwyr llyfrgell proffesiynol am arbenigedd. Mae nifer y gwirfoddolwyr a chyfanswm oriau gwirfoddolwyr wedi lleihau yn 2018/19. Nodir bod adnoddau staff yn ffactor cyfyngol o ran hyn.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw ar gyfer y gwasanaeth unedig wedi cynyddu, ond mae cyfanswm yr oriau agor wedi mynd islaw lefel y targed yn 2018/19, gan adlewyrchu newidiadau i'r modd y cyflwynir gwasanaethau llyfrgell i'r cartref; nodwyd bod dros 4% o ddsbarthiadau i'r cartref wedi cael eu colli yn ystod y flwyddyn.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Sir Fynwy yn nodi bod y broses o ddarparu gwasanaethau'r cyngor, gwasanaethau llyfrgell a gwasanaethau dysgu oedolion mewn Hybiau yn parhau, gan integreiddio nifer o wasanaethau cymorth cymunedol. Mae'r naratif yn tynnu sylw at y ffordd y mae'r elfen o'r ddarpariaeth sy'n ymwneud â llyfrgelloedd yn gyson â Nodau Llesiant a strategaeth Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru: gan ddarparu mynediad cynhwysol am ddim at wybodaeth a gwasanaethau i'r cyhoedd; darparu gwasanaethau sy'n hyrwyddo iechyd a lles; cefnogi datblygiad llythrennedd o oedran cynnar; a chynnig ymgyfoethogi diwylliannol, gan helpu i greu cymunedau cryfach a mwy cydnerth.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Sir Fynwy yn nodi bod gwaith gyda chydweithwyr yn y cyngor a phartneriaid allanol i ddatblygu'r gwasanaeth drwy ei fodel ar gyfer Hybiau Cymunedol a Llyfrgelloedd yn parhau. Mae trefniadau estynedig i barhau â'r gwasanaethau yn Llyfrgell Gilwern bellach ar waith tan 2021 hefyd. Bydd datblygiadau diweddar, fel y gwasanaeth dosbarthu i'r cartref ar ei newydd wedd, yn cael eu monitro yn y dyfodol, a nodwyd y bydd darpariaeth llyfrgelloedd yn rhoi ffocws o hyd ar wasanaethau i blant. Gobeithir y bydd y strategaeth llyfrgelloedd sy'n cael ei datblygu yn rhoi ffocws ar atgyfnerthu'r cyflawniadau diweddar a nodi meysydd i'w gwella ymhellach.

6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Sir Fynwy yn parhau i weithredu fel rhan o arlwy Hybiau Cymunedol a Llyfrgelloedd unedig ar gyfer y sir, ynghyd â gwasanaethau dysgu oedolion. Mae sylwebaeth lawnach yn y datganiad eleni yn dangos sut y mae'r dull gweithredu hwn yn cael effaith ar y gwasanaeth, er bod lle i gynnig mwy o eglurhad ar rai agweddau o hyd. Gwelwyd gwelliannau calonogol i rai meysydd o ddefnydd llyfrgelloedd, ac o ran gwariant ar ddeunyddiau llyfrgelloedd, ond roedd y perfformiad wedi dirywio mewn meysydd eraill. Mae gostyngiad yn y lefelau staffio cyffredinol wedi effeithio ar gyflawniad o dan Ddangosydd Ansawdd 13 ac mae'r oriau agor (Dangosydd Ansawdd 16) hefyd wedi gostwng o dan y lefel darged. Rhagwelir y bydd rhai gwelliannau wrth i Hwb y Fenni gael ei lansio'n fuan, ac mae strategaeth llyfrgelloedd wrthi'n cael ei datblygu er mwyn llywio cyfeiriad strategol y gwasanaeth yn y dyfodol.

ⁱMae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.